LANEq312

# Rheoli ceffylau pan fyddant yn cael eu troi allan

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys rheoli ceffylau pan fyddant yn cael eu troi allan. Bydd hyn yn cynnwys gwirio'r ceffylau a'r tir fel mater o drefn.

Dylech fod yn gallu asesu ffiniau ac unrhyw loches, a gwirio ymddygiad a chyflwr y ceffylau.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. asesu bod ffiniau'r tir a'r llochesi yn addas ac yn ddiogel ar gyfer ceffylau
3. sicrhau bod cyflenwad digonol o ddŵr heb ei halogi ar gael
4. rheoli'r gwaith o droi ceffylau allan fel y bo'n briodol
5. gwirio ymddygiad a diogelwch ceffylau yn rheolaidd a hysbysu fel bo angen, yn unol â'r gweithdrefnau
6. trefnu'r gwaith o ddal a dod â cheffylau i mewn
7. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y peryglon posibl wrth symud, rhyddhau a dal ceffylau
3. y dulliau o droi ceffylau allan ar dir pori rheolaidd a newydd
4. pa mor aml i wirio'r ceffyl, y cae a'r dwr yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn a'r tywydd
5. y wybodaeth sydd angen ei hysbysu a'i chofnodi
6. sut i gyflwyno ceffyl newydd i grwp sydd wedi ei sefydlu
7. ymddygiad grwp ceffylau
8. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Darparu tystiolaeth perfformiad ar gyfer y canlynol:

- rhyddhau ceffyl ar dir pori
- dal ceffyl ar dir pori

## Geirfa

Ffiniau:

- gatiau
- muriau
- ffensys
- ffosydd
- gwrychoedd

Rheoli ceffylau pan fyddant yn cael eu troi allan

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq312 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; pori; ymarfer |